

## Canllaw Cadeirio a Choroni



*Sara Down yng Nghadair Eisteddfod Llanwrtyd 2014 gyda Garry Owen ar y chwith eithaf.*

**Ychydig ddyddiau cyn Eisteddfod Llanwrtyd eleni derbyniodd Mei Mac, un o'n Swyddog Datblygu, ymholiad unigryw.**

Arweinydd seremoni cadeirio'r eisteddfod oedd Garry Owen ac roedd yn awyddus iawn i wybod mwy am arwain seremoni felly gan nad oedd wedi cynnal un o'r blaen. Wrth reswm, fel sawl un ohonom, roedd wedi bod yn bresennol mewn nifer o eisteddfodau lle bu cadeirio a choroni ond erioed wedi arwain mewn un. Y cwestiwn felly a oedd modd i'r Gymdeithas ei helpu ar fyr rybudd? Cafodd Mei sgwrs â Garry i'w roi ar ben

ffordd. Yna aeth Mei ati i lunio canllawiau ar gynnal seremonïau cadeirio a choroni.

Mae'r canllawiau'n cynnwys trefn seremoni cadeirio (yr un yn y bôn yw seremonïau cadeirio a choroni) ynghyd â geiriad Gweddi'r Orsedd, Cân y Cadeirio ac yn y blaen. Y gobaith yw y bydd y canllawiau o fudd i eisteddfodau newydd sbon ac o bosib i eisteddfodau sydd eisiau ychwanegu at eu seremonïau presennol. Mae'r canllawiau ar gael oddi ar wefan y gymdeithas neu drwy gysylltu â Mei neu Shân Croff, mae eu manylion ar dudalen 2.

## llongyfarchiadau!



**Ffion Haf**, enillydd lluo wobrau yn Eisteddfod Y Tymbl.



**Beti Wyn James**, Enillydd y Gadair yn Eisteddfod Y Tymbl.

## CYFARFOD EISTEDDFODAU SIR GÂR



Dyma lun o rhai a ddaeth i gyfarfod a drefnwyd gan y Gymdeithas yn ddiweddar i roi gwybod i eisteddfodau yn Sir Gâr sut y gallwn fod o gymorth iddynt. Roedd cynrychiolwyr o'r eisteddfodau canlynol yn y cyfarfod: Llangadog, Felindre, Pumsaint, Yr Hendy, Llandyfaelog, Y Tymbl, Mynydd y Garreg, Abergorlech, Bancffosfelen, Eisteddfod y Dysgwyr De Orllewin Morgannwg, Rhydaman, Pontarothi. Rhag ofn i chi gyfrif pennau, gwell fyddai i ni dynnu sylw at y ffaith bod rhai wedi gadael cyn i'r llun gael ei dynnu! Yn y llun hefyd i'r dde o'r faner, mae Shân ein Swyddog Datblygu a drefnodd y cyfarfod. Ddiwedd Hydref cynhaliwyd cyfarfod ym Mhenfro, yng Nghlwb Rtygbi Crymych lle daeth swyddogion o eisteddfodau Llandudoch, Maenclochog, Brynberian, Crymych, Castell Newydd Emllyn, Cenarth a Bryngwenith. Mae cyfarfodydd ar y gweill ym Môn a Dinbych.

## Raffl Fawr y Gymdeithas



Cyfle gwyich i godi arian

Eto eleni mae'r Gymdeithas yn cynnig tocynnau raffl i aelodau. Am bob tocyn a werthir, ar ôl y 15 cyntaf, caiff yr eisteddfod gadw'r arian. £1 yr un fydd tocynnau. Cysylltwch â Mei neu Shân.

## Ffrindiau 'steddfodol



Cofiwch, am ba bynnag reswm, bod modd i chi gysylltu â ni ar Facebook: Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

## 'steddfota DRWY'R POST

Hoffech chi dderbyn copi o 'Steddfota drwy'r post? Cysylltwch â Shân neu Mei neu ewch i'n gwefan.



## mynnu gair

Os hoffech chi ddefnyddio gwasanaeth ein Swyddogion Datblygu mae croeso i chi gysylltu â nhw yn y cyfeiriadau isod:

Swyddog Datblygu y De  
**Shân Crofft**

shân@steddfota.org

02920 213596

07770 870605

Swyddog Datblygu'r Gogledd

**Meirion MacIntyre Huws**

mei@steddfota.org

01286 660 364

07887 654 251

## galw am luniau



Diflas iawn fyddai'r newyddlen hon, yn ogystal â'n gwefan, heb luniau da. Cofiwch anfon unrhyw luniau sydd gennych o fydd yr eisteddfodau at Mei neu Shân.



# DATHLU DEUGAIN OED

## EISTEDDFOD GADEIRIOL TREUDDYN


### Eisteddfod Treuddyn 1863 – 1999

Eleni mae Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeugain oed. Ers degawdau mae'r eisteddfod wedi llwyfannu digwyddiad diwylliannol, gan roi cyfle i nifer o blant ac oedolion berfformio o flaen cynulleidfa.

Mae'r trefnwyr yn ymfalchïo yn y ffaith mai hon yw'r unig Eisteddfod yn Sir y Fflint, ac yn falch iawn ei bod wedi gallu parhau cyhyd mewn ardal sydd mor agos at y ffin rhwng Cymru a Lloegr.


Llwyfannodd Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn yr eisteddfod gyntaf yn y gyfres hon ym mis Tachwedd 1975 dan nawdd y prosiect Ansawdd Bywyd sydd wedi'i lywio gan Gyngor Dosbarth Alun a Glannau Dyfrdwy. Cyn hynny roedd Eisteddfod Treuddyn neu 'Gyfarfod Cystadleuol, Llenyddol a Cherddorol' yn bodoli ers 1863.

Mae'r eisteddfod yn trefnu digwyddiadau codi arian ac



Taflen yn hysbysebu 'Gyfarfod Cystadleuol, Llenyddol a Cherddorol' yn 1886.

ddiolchgar eu bod yn ddigon ffodus i dderbyn cymorth ariannol gan unigolion ffyddlon a Chyngor Cymuned Treuddyn. Dymuna'r Gymdeithas bob hwyl iddynt a gobeithio aiff Eisteddfod Treuddyn yn ei blaen, o nerth i nerth, yn gant oed!



Mae'r llyfr yma'n olrhain hanes Eisteddfod Treuddyn o 1863 hyd 1999. Mae'n esbonio mai selogion y capel gychwynnodd yr Eisteddfod yma mae'n debyg ar ôl gweld pobl yn cyfarfod mewn tafarndai i fwynhau canu ac adrodd cerddi. Roeddent am eu hachub rhag y ddioid gadarn. Cynhaliwyd yr Eisteddfod mewn capeli ar y dechrau, ac mae'r llyfr yn trafod y Cymry adnabyddus, megis Nansi Richards Telynores Maldwyn, a fu'n ymweld â'r Eisteddfod gan ei rhoi ar y map.

Mae'r llyfr yn edrych ar yr amrywiol gadeiriau Eisteddfod a enillwyd dros y blynyddoedd, yn dyfynu cerddi buddugol ac yn adrodd amrywiol straeon a hanesion o wahanol gyfnodau. Mae'r rhain yn cynnwys geiriau un dyn oedd wedi byw yn Llundain ers blynyddoedd oedd yn cofio gydag ias oer ei brofiad o sefyll ar y llwyfan yn chwech oed i adrodd cerdd Gymraeg i ystafell orlawn. Mae'n cofio ei athro'n gwthio ei afal i'w boced cyn iddo fynd ar y llwyfan ac yntau'n gorfod sefyll yno'n anghyfforddus yn ceisio adrodd a'i afal yn creu siapiau rhyfedd iawn yn ei drowsus!

### A yw hi'n benblwydd ar eich eisteddfod chi?

Rhowch wybod i ni ac fe gaiff sylw yn Steddfota ac ar ein gwefan. Mae manylion Mei ar dudalen 2.

## YSGOLORIAETH CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU – GWERTH £1,000

Cynigir Ysgoloriaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn flynyddol o 2015 i alluogi'r rheiny sydd yn cyrraedd Llwyfan y Brifwyl yng nghystadleuaeth blynyddol y Gymdeithas i dderbyn hyfforddiant pellach ym maes perfformio ar lwyfan eisteddfodol. Cystadleuaeth y Gymdeithas am 4104 i 2015 yw: **YMGOM**, 10–26 oed – (2 neu fwy mewn nifer). Thema: Hunan Ddewisiad. Dim hwy na 5 munud i'w pherfformio. Noddwyr yr ysgoloriaeth yn 2015, **gwerth £1,000**, yw Cymrodoriaeth Eisteddfod Talaith a Chadair Powys. Ni chaniateir ennill yr ysgoloriaeth fwy na dwywaith o fewn pedair blynedd. Os yw Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru'n cynnwys mwy nag un cystadleuydd, fe rennir yr ysgoloriaeth rhyngddynt.



# anrhydeddu

Yn ystod Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ym Mhrifwyl Llanelli, anrhydeddwyd nifer o unigolion am eu gwaith diflino dros eu heisteddfodau lleol. Dyma luniau ohonynt yn derbyn tystysgrif cain i nodi'r digwyddiad gan Garry Owen.



*Ann Evans, Felindre.*



*Catherine Ramage, Castell Newydd Emlyn.*



*Ceri Davies, Brynberian.*



*Cyril Evans, Tregaron*



*Elsie Morgan, Penrhyn-Coch*



*Geraint Rees, Mynydd y Garreg*



*Gwladys Davies, Garnant.*



*Hazel Thomas, Cwmdy.*



*Huw John, Llandyfaelog.*



*John Thomas, Castell Newydd Emlyn.*



*Mai Ellis, Llandrindod.*



*Mair Williams, Pumsaint.*





Margaret Lloyd, Y Tymbl.



Mary Jones, Llanbedr Pont Steffan.



Mairwen Jones, Penrhyn-Coch



Megan Jones, Talgarreg.



Megan Price, Troedrhwdalar.



Meirion Griffiths Davies, Rhydlewis.



Neli Jones, Ponrhydfendigaid.



Phyllis Bell, Felindre, Abertawe.



Stella Traherne, Bancffosfelen a Chrwbin.



Terwyn Tomos, Llandudoch.



W. John Griffiths, Talgarreg.



Fel mae'n siŵr eich bod wedi sylwi, eisteddodau'r de a arhydeddwyd eleni. Tro'r gogledd fydd hi yn Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau 2015, ac felly am yn ail yn flynyddol wedyn.

Y dystysgrif a gyflwynwyd mewn ffrâm i bawb.

# Dychwelyd Cwpan 1966



Gwyneth Rowlands

**Nage, nid stori am Gwpan Pêl-droed y Byd yw hon, ond cwpan bwysicach o lawer i ni eisteddfodwyr. Mae'n stori hir ond yn werth ei hadrodd!**

Yn y 1960au un o selogion y *circuit* eisteddfodol oedd Gwyneth Rowlands, yn wreiddiol o Lanwrtyd. Bu'n cystadlu'n frwd yn yr eisteddfodau lleol ac enillodd lu o wobrau. Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio aeth Gwyneth i Brifysgol Aberystwyth lle graddiodd cyn mynd i ddysgu Cymraeg a Lladin yn ardaloedd Yr Wyddgrug, Rhuthun a Llangollen.

Wedi gyrfa hir o ddysgu, penderfynodd ymddeol a symudodd yn ôl i Lanwrtyd i edrych ar ôl ei mam (a gafodd fyw yn 100 oed). Ar ôl symud nôl i'r hen gynefin ymunodd Gwyneth â Phwyllgor Eisteddfod Llanwrtyd ac un o'i chyfrifoldebau oedd cyd-arwain o lwyfan yr eisteddfod yn y sesiynau nos. Fe wnaeth hynny am flynyddoedd lawer.

Yn hynod o drist, bu farw Gwyneth yn sydyn iawn fis Mehefin eleni a hithau'n ddim ond 72 oed. Wrth i'w chyfnither, Mary Morgan (y perthynas agosaf) fynd drwy gartref Gwyneth i glirio'i phethau daeth o hyd i swp o gwpanau eisteddfodol, a phenderfynodd eu rhoi i Eisteddfod Llanwrtyd i'w defnyddio fel gwobrau.

'Roedd un o'r cwpanau wedi dod o Eisteddfod Dyffryn Elwy a chredir iddi gael ei hennill gan Gwyneth am y Prif Adroddiad ym 1966. Wrth drafod yr hanes yn ystod cyfarfod Pwyllgor



Y Gwpan

Cymdeithas Eisteddfodau Cymru'n ddiweddar soniodd Dennis Davies, Llanrwst ei fod yn cofio Gwyneth yn adrodd mewn eisteddfodau yr un pryd ag y bu yntau'n cystadlu a'i fod yn sicr mai hi oedd yr enillydd.

'Roedd Mary Morgan a phwyllgor Eisteddfod Llanwrtyd yn awyddus iawn i'r gwpan gael ei dychwelyd i Eisteddfod Dyffryn Elwy i'w defnyddio efallai, fel 'Cwpan Her'. Mae Pwyllgor Eisteddfod Dyffryn Elwy wedi cyffroi bod y gwpan wedi dod i'r golwg ar ôl bron hanner canrif. Maent yn ddiolchgar iawn i deulu

Gwyneth Rowlands a Pwyllgor Eisteddfod Llanwrtyd am benderfynu ei dychwelyd i Ddyffryn Elwy. Bydd y pwyllgor llawn yn cyfarfod yn hwyrach mis hyn er mwyn penderfynu sut i gyflwyno'r cwpan fel gwobr yn ei heisteddfod.

## Galw am adroddiadau digri

Mae'n fwriad gan y Gymdeithas gyhoeddi nifer o adroddiadau digri a darnau heb eu hatalnodi. Rydym yn apelio felly arnoch chi eisteddfodwyr am ddeunydd felly er mwyn casglu celc amrywiol. Anfonwch unrhyw ddarnau at Mei neu Shân os gwelwch yn dda!


## AELODAU NEWYDD - PELL AC AGOS!

Mae tair eisteddfod wedi ymaelodi â'r Gymdeithas yn ddiweddar. Y ddwy gyntaf yw Eisteddfod Pontarothi ac Eisteddfod Llanrug a Chwm y Glo. Edrychwn ymlaen at gydweithio â nhw.

Yr ail yw Eisteddfod Trevelin yn y Wladfa! Ond, er mawr siom i Mei a Shân, nid yw cyllideb y Gymdeithas yn caniatáu i'n Swyddogion Datblygu fynd i Batagonia i'w cyfarfod! Serch hynny rydym yn gobeithio y bydd yr eisteddfod, gyda chymorth y Gymdeithas, yn mynd o nerth i nerth.



## Ymgomau ar gael



I gyd-fynd â'r ffaith mai Ymgom yw testun ein cystadleuaeth am 2014-2015, mae'r Gymdeithas ar fin cyhoeddi taflen yn cynnwys nifer o ymgomau addas. Fe fydd y ddogfen ar gael ar ein gwefan cyn bo hir:

[www.steddfota.org](http://www.steddfota.org)



# Cysgodi Beirniaid

Trefnwyd Cynllun Mentora Beirniaid ar y cyd â'r Eisteddfod Genedlaethol eleni a bu cryn drafod ar y cunllun. Ond a oedd yn llwyddiant ai peidio? Bu *Steddfota'n* holi dau o'r cyw feirniaid am eu hymateb.



## Davinia Davies

Fy mhrofiad mewn tri gair o gysgodi'r beirniaid cerddoriaeth fel rhan o gynllun

mentora beirniaid Eisteddfod Sir Gâr 2014 yw: gwerthfawr, gwyth a godidog! Dechreuodd fy mhrofiad gyda'r beirniaid profiadol a chroesawgar sef Beryl Lloyd Roberts, Iwan Roberts a Huw Williams, ar Sadwrn cynta'r 'steddfod gyda'r corau cymysg dros 45 o leisiau. Yna ar y Sul, cefais wrando a dethol y corau cymysg hyd at 35 o leisiau, cyn gorffen ar y Sadwrn ola, gyda'r corau meibion dan 45 o leisiau a dros 45 o leisiau. Beth oedd yn arbennig am y profiad oedd clywed barn y beirniaid am y gystadleuaeth cyn y perfformiadau, ac yn sicr y drafodaeth am bob côr wedi'r cystadleuaeth. Roedd y beirniaid yn edrych am nifer o'r gofynion

cerddorol megis dealltwriaeth o'r gerddoriaeth a'r geiriau, mynegiant, y ffordd roedd y cor yn cyfathrebu gyda'i cynulleidfya yn ogystal a sylw manwl at y darn prawf. Bu trafod mawr ynghlyn a'r holl gorau, gyda'r beirniaid yn holi am fy safbwynt i, ac yn llwyddo i gytuno bob tro ar yr enillwyr. Roedd yn gwaith dan sylw yn bwysig iawn, ond roedd y dwysder o feirniadu yn cael ei dorri gan ysgafnder, personoliaethau a hiwmor priodol y tri beirniaid.

Mi fydd cyngor y beirniaid yn aros gyda fi am byth, a gobeithio y byddaf yn gallu defnyddio'r profiad yma tra'n beirniadu yn Eisteddfod Gadeiriol Pumpsaint 2014, Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc Ceredigion 2014 yn ogystal ag Eisteddfodau'r Urdd 2015.

Rwy'n ddiolchgar iawn i Gymdeithas Eisteddfodau Cymru ac i'r Eisteddfod Genedlaethol am adael i mi fod yn rhan o'r cynllun amhrisiadwy hwn. Mi fydd cyngor y beirniaid

yn aros gyda fi am byth, a gobeithio y byddaf yn gallu defnyddio'r profiad yma tra'n beirniadu yn Eisteddfod Gadeiriol Pumpsaint 2014, Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc Ceredigion 2014 yn ogystal ag Eisteddfodau'r Urdd 2015.



## Donald Morgan

Roedd y profiad yn un hapus iawn, ac mi gefais llawer o trafod fy sylwadau gan

Mr Geraint Hughes un o'r cyd Feirniaid ac hoffem ddweud bod y ddau ohonom yn cytun ar rhan fwyaf o ddehongliadau y Cystadleuwyr yn yr Llefaru Unigol Dan 12 ar Llefaru or Ysgrythur wnes i gysgodi.

Yn y gystadleuaeth cyntaf cefais eistedd ar bwys y prif feirniad ond roeddwn yn teimlo fel fy mod yn ysbryd wrth ei ysgwydd braidd a chefais dim trafod. Ond yn yr ail gystadleuaeth cefais llawer fwy o wybodaeth a thrafod wrth eistedd ger y cyd-feirniad Mr Geraint Hughes. Gobeithio nawr gallaf roi'r profiad a'r cyngor a dderbynais gan Mr Hughes ar waith pan fyddaf yn beirniadu nesaf mewn Eisteddfod.

Rwy'n ddiolchgar am y profiad a diolch yn fawr i Mr Geraint Hughes am fod mor groesawgar ac am adael i mi roi fy sylwadau ac am iddo roi ei brofiad ef a'i awgrymiadau i mi.

“ Rwy'n falch iawn bod y Gymdeithas am barhau â'r cynllun ac wedi mynd i bartneriaeth gyda'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn sicr bod mantais iddo gyda'r cyw feirniaid yn medru gwrandao ar drafodaeth y beirniaid a rhoi eu safbwynt hwythau. Hefyd roeddent yn medru gweld beth a gynhwysir mewn beirniadaeth ysgrifenedig.

– Geraint Hughes, Beirniad



Y criw a gymerodd ran yn 'Rhywun Mawr yn y Man', yn y Lolfa Lên ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol eleni: Y Prifardd Guto Dafydd, Gwenllian Llwyd, Annest Wyn Jones, Ilan Wyn Jones, Dylan Huw Edwards, Sioned Dafydd a'r Prifardd Twm Morys.

Cofiwch: mae modd lawrlwytho Rhestrau Testunau llawer iawn o eisteddfodau oddi ar wefan y Gymdeithas hefyd.

## TACHWEDD 2014

|   |               |              |
|---|---------------|--------------|
| Tachwedd 22ain – Eisteddfod Trallong    | Mary Robinson | 01874 624350 |
| Tachwedd 29ain – Eisteddfod y Foel      | Dawn Jones    | 01938 820272 |
| Tachwedd 29ain – Eisteddfod Abergorlech | Jean Huxley   | 01874 730282 |
| Tachwedd 29ain – Eisteddfod Aelhaearn   | Mary C. Jones | 01286 660768 |

## IONAWR 2015

|  |                     |              |
|--|---------------------|--------------|
| Ionawr 24ain – Eisteddfod Gadeiriol Chwilog        | Gwyn Parry Williams | 01766 810717 |
| Ionawr 30ain – Eisteddfod Dihewyd                  | Meinir Lewis        | 01570 470050 |
| Ionawr 31ain – Eisteddfod Capel MC Cenarth         | Julia James         | 01239 710808 |
| Ionawr 31ain – Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch | Rose A. Jones       | 01766 530772 |

## CHWEFROR 2015

|   |                   |              |
|---|-------------------|--------------|
| Chwefror 7fed – Eisteddfod Llaurplwy' a Phenstryd Trawsfynydd | Greta Ellis       | 01766 540227 |
| Chwefror 7fed – Eisteddfod Gadeiriol Crymych                  | Lynwen ap Gwynedd | 01239 698681 |
| Chwefror 21ain – Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn               | Bethan Davies     | 01654 711052 |
| Chwefror 21ain – Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni              | Lowri Griffith    | 01286 880291 |
| Chwefror 21ain – Eisteddfod Gadeiriol Brynberian              | Ceri Davies       | 01239 891296 |
| Chwefror 27ain – Eisteddfod Swyddffynnon a'r Cylch            | Annwen Isaac      | 01974 831668 |
| Chwefror 28ain – Eisteddfod Gadeiriol Llanfihangel ar Arth    | Gerald Coles      | 01559 384987 |

## MAWRTH 2015

|  |                   |              |
|--|-------------------|--------------|
| Mawrth 6ed – Eisteddfod y Dysgwyr Gogledd Ddwyrain Cymru   | Manon Prysor Huws | 01248 383928 |
| Mawrth 13eg – Eisteddfod y Dysgwyr De-Orllewin Cymru       | Lowri Gwenllian   | 01792 642294 |
| Mawrth 27ain – Eisteddfod y Dysgwyr Gogledd Orllewin Cymru | Manon Prysor Huws | 01248 383928 |

## EBRILL 2015

|   |                |              |
|---|----------------|--------------|
| Ebrill 3ydd a 4ydd – Eisteddfod Gadeiriol Llangadog a'r Cylch | Morfydd James  | 01550 777047 |
| Ebrill 6ed – Eisteddfod Capel Talybont, Rhyduchaf, Y Bala     | Gwenan Jones   | 07861 925222 |
| Ebrill 10fed – Eisteddfod Gadeiriol Bryngwenith               | Ann Lewis      | 01239 710144 |
| Ebrill 11eg – Eisteddfod Gadeiriol Mynytho – Testunau Llên    | Dilwyn Thomas  | 01758 740704 |
| Ebrill 24ain a 25ain – Eisteddfod Gadeiriol Penrhyncoch       | Ceris Gruffudd | 01970 828017 |

## Eisteddfod 'Newydd' Cwmystwyth 2015

Ar adeg pan fo cwynion bod eisteddfodau'n gwegian yma ac acw, braf yw cael cyhoeddi y bydd eisteddfod a ddaeth i ben yn y 1960au yn cael ei chynnal ym mis Medi 2015 – yng Nghwmystwyth. Mae'r eisteddfod eisoes wedi ymaelodi â'r Gymdeithas ac am fanteisio ar y grant o £250 a roddir i eisteddfodau fel cymorth i atgyfodi fel hyn.

Cofiwch gysylltu ymlaen llaw ag unrhyw eisteddfod yr ydych am ymweld â hi i gadarnhau bod y dyddiadau uchod yn gywir.



[www.steddfota.org](http://www.steddfota.org)